

Prifysgol Wreccsam Wrexham University

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr a gynhaliwyd am 9.00am ddydd
Gwener 24ain Tachwedd 2023, Ystafell 1887, Prifysgol Wreccsam

Yn bresennol: Dr Leigh Griffin (Cadeirydd)
Richard Campbell Yr Athro
Martin Chambers Dr Sarah
Dubberley
Maisie Head
Yr Athro Maria Hinfelaar
Claire Homard
Diane McCarthy
David Subacchi
Will Naylor
Fabrizio Trifiro
Richard Thomas
Maureen Wain
Liam Wynne

Swyddogion: David Clarke (Clerc i'r Bwrdd)
David Elcock (Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol)
Yr Athro Aulay Mackenzie (Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro)
Yr Athro Ieuan Ellis (Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol Dros Dro)
Pete Gibbs (Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)
Lynda Powell (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)

Yn mynychu: Yr Athro Jeremy Bradshaw (*Arsylwr, panel RDAPs yr ASA*)
James Dawson (*Cyfarwyddwr Rhaglenni Myfyrwyr a Gweinyddu Myfyrwyr, ar gyfer cyfeirnod cofnod BG2324/34 i BG2324/37*)

Ymddiheuriadau: Amy
Anglesea
Paul Barlow
Dr Karen Heald Yr Athro
Sandra Jowett Sally
Lambah

Yr Athro Richard Day

Cyfeirnod cofnod	Eitem Agenda	Cam gweithredu
BG2324/24	Adroddiad y Pwyllgor Tâl	
	Derbyniwyd: (i) Adroddiad y Pwyllgor Tâl a gynhaliwyd ar 26ain Hydref (ii) Datganiad ar Bolisi Tâl Blynyddol 2022/23 Adroddwyd: Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref, gan gynnwys y Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol a argymhellodd y Pwyllgor i'r Bwrdd ei gymeradwyo.	

	<p>O ran y Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol, nododd yr aelodau gynnydd calonogol y Brifysgol o ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mewn perthynas â dull y Brifysgol o nodi a rheoli staff talentog, nodwyd bod cynllunio olyniaeth a defnyddio cynlluniau fel Aurora yn cael eu defnyddio ond nad oedd prosesau ffurfiol ar waith; awgrymwyd y gallai rhaglen rheoli talent ffurfiol fod yn fuddiol.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol 2022/23.</p>	
BG2324/26	Croeso ac ymddiheuriadau	
	<p>Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau.</p> <p>Roedd yr Athro Jeremy Bradshaw (ASA) yn arsylwi'r cyfarfod fel rhan o broses adolygu ceisiadau RDAP.</p>	
BG2324/27	Datganiadau gwrthdaro rhwng buddiannau	
	<p>Adroddwyd: Datganodd Liam Wynne fuddiant yn y cynnig i fuddsoddi yn seilwaith rhwydwaith y Brifysgol, fel Cyfarwyddwr Anweithredol Advatek (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/45). Yn dilyn cyngor y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol, nodwyd y byddai'r gwrthdaro'n cael ei nodi ac y byddai'r aelod hwn yn cael aros ar gyfer y drafodaeth. Ar y cam hwn roedd y Brifysgol yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer buddsoddiad ac i symud ymlaen i gaffael i brofi'r farchnad; pe bai angen ystyried tendrau neu drafodaeth bellach mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol, yna byddai'r datganiad hwn yn cael ei adolygu eto.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R gwrthdaro rhwng buddiannau</p>	
BG2324/28	Cofnodion y cyfarfod diwethaf	
	<p>Derbyniwyd: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Hydref 2023</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p>	
BG2324/29	Cofnod camau gweithredu	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gamau gweithredu parhaus a chamau gweithredu a gwblhawyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R cofnod camau gweithredu</p>	
BG2324/30	Adroddiad Undeb y Myfyrwyr	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr adroddiad ar weithgarwch Undeb y Myfyrwyr a chynnydd prosiectau. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad a'r mewnwelediad parhaus i brofiad y myfyriwr. Diolchodd yr aelodau i Undeb y Myfyrwyr am ei waith rhagweithiol o ran costau byw ac awgrymodd y gallai fod lle i weithio mewn partneriaeth â Choleg Cambria, yn enwedig o ran coginio prydau fforddiadwy.</p>	

	<p>Nododd yr aelodau hefyd waith parhaus Undeb y Myfyrwyr i gefnogi cymdeithasau chwaraeon i sicrhau nawdd, gan dynnu sylw at y ffaith, er bod Hoci wedi gwneud yn dda, bod timau Pêl-rwyd a Phêl-droed wedi cael trafferth gan fod llawer o gystadleuaeth am gefnogaeth gan fusnesau lleol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
BG2324/31	Adroddiad yr Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad gan yr Is-ganghellor</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ei hadroddiad i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:</p> <p><u>Newyddion y sector:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd data a gynhyrchwyd gan UCAS wedi dangos bod lefelau cyfranogiad mewn AU yng Nghymru yn gostwng. Roedd y Brifysgol yn parhau â'i gwaith ar allgymorth, marchnata a recriwtio, ond roedd cyfradd cyfranogiad AU o lai na 30% o'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn bryder cynyddol yn y sector a oedd yn denu sylw gwleidyddion ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. • Roedd Llywodraeth y DU wedi cadarnhau cyllid ar gyfer Parth Buddsoddi Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWIZ) yn Natganiad yr Hydref. Roedd hyn yn newyddion cadarnhaol i'r rhanbarth ac roedd yr Is-ganghellor wedi bod yn ymwneud â datblygu cynigion fel aelod o'r grŵp llywio. Byddai NEWIZ yn canolbwyntio'n bennaf ar sectorau gweithgynhyrchu a pheirianeg uwch. Byddai rhagor o fanylion a chynlluniau busnes yn dod i'r amlwg maes o law. • Roedd yr Is-Ganghellor wedi mynychu sesiwn briffio gan Lywodraeth Cymru ynghylch lansio CTER. Nid oedd disgwyl i'r broses gofrestru newydd ar gyfer sefydliadau gael ei rhoi ar waith tan 2026, ac roedd ymgynghoriad ar fanylion y prosesau newydd yn mynd rhagddo. • Byddai CCAUC yn rhoi'r gorau i fodoli o fis Ebrill 2024 ymlaen, gyda throsglwyddiad i ddigwydd cyn y newid i CTER. Byddai staff CCAUC yn symud i'r rheoleiddiwr newydd, ond roedd Prif Weithredwr CCAUC wedi cyhoeddi y byddai'n gadael CCAUC erbyn mis Chwefror. Dywedodd yr Is-Ganghellor y byddai'n cwrdd â Phrif Weithredwr newydd CTER ym mis Ionawr. <p>Nododd yr aelodau fod llwyddiant diweddar prosiect EEOC y Brifysgol yn cydfynd yn dda â'r newyddion ynglŷn â NEWIZ.</p> <p>Rhannodd y Bwrdd hefyd y pryder sy'n bodoli ar draws y sector ynghylch y gostyngiad yn y gyfradd cyfranogiad mewn AU yng Nghymru. Awgrymodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld dadansoddiad rhanbarthol o'r data hwnnw pan oedd ar gael, yn ogystal â data ar gyrchfannau ymadawyr ysgolion yng Nghymru nad oeddent yn mynd i AU. Nodwyd y byddai gwella llwybrau a phartneriaethau rhwng darparwyr AU ac AB yn debygol o fod yn ffocws i CTER, a nodwyd bod hyn hefyd yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint. Nododd yr aelodau fod y Deoniaid yn arwain ar waith rhagweithiol i gryfhau partneriaethau gydag ysgolion a darparwyr AB ar lefel cyfadrn ac adran.</p> <p>Holodd yr aelodau hefyd am statws y berthynas rhwng y Brifysgol a Choleg Cambria. Dywedwyd bod hyn wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf drwy</p>	

	<p>fentrau gan gynnwys Prifysgol y Plant, llif myfyrwyr i raglenni lechyd Perthynol, a gwaith yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nodwyd bod gan Goleg Cambria gytundebau, llwybrau cydweddu a phartneriaethau presennol gyda Phrifysgolion eraill a bod angen ymchwilio ymhellach i'r meysydd posibl ar gyfer cydweithio â Wrecsam. Nododd yr aelodau ymdeimlad bod y berthynas weithredol gyda Choleg Cambria yn gryf, fodd bynnag roedd angen cryfhau'r berthynas strategol.</p> <p><u>Ymweliad CCAUC</u> Roedd yr Is-Ganghellor a Chadeirydd y Bwrdd wedi cynnal ymweliad â'r Brifysgol gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr CCAUC ar 23 Tachwedd. Roedd hwn wedi bod yn gyfle gwerthfawr i arddangos maint y datblygiad campws oedd yn digwydd yn y Brifysgol, yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaethau anffurfiol ynghylch CTER a'r gwaith parhaus o gyflawni cynlluniau gweithredu. Hwn oedd yr ymweliad cyntaf â'r Brifysgol gan CCAUC ers 2019, a nodwyd bod yr ymwelwyr wedi cydnabod y cynnydd clir sy'n cael ei wneud. Dywedwyd bod y cyfarfod yn adeiladol, a'i bod yn amlwg y byddai pontio i CTER yn broses hir a graddol.</p>	
BG2324/32	Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022/23	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022/23</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg 2022/23 (ii) Adroddiad blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23 <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yr adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023. Roedd y papur hefyd wedi cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'i argymhellodd i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. O safbwynt ariannol, nodwyd bod 2022/23 wedi bod yn flwyddyn anodd a oedd wedi cael ei rheoli i greu canlyniad derbyniol. Roedd penawdau allweddol y cyfrifon yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd yng nghyfanswm lefelau incwm Grŵp y Brifysgol i £50.9m • Colled weithredol o £1.379m • Roedd bwriad i werthu Ffordd y Deon cyn diwedd y flwyddyn ond cafodd ei ohirio tan fis Hydref 2023, gan gyfrannu at y diffyg a nodwyd. • Cynnydd o £27m yn y cronfeydd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn (hyd at £33m ar adeg y cyfarfod hwn) • Cynnydd yng nghyfanswm yr asedau net i £60.6m <p>Adroddwyd bod yr adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol wedi cynnwys mewnbwn gan ystod eang o staff a rhanddeiliaid, ac wedi'u cymeradwyo gan yr archwilwyr allanol.</p> <p>Nododd y Bwrdd fod 2022/23 wedi dechrau gyda diffyg disgwylidig o £3.5m, ac roedd y Brifysgol wedi perfformio'n dda i adfer y ffigur hwnnw yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod digwyddiad ar ôl y fantolen wedi'i greu i esbonio effaith gohirio gwerthu Ffordd y Deon, a fyddai wedi gadael y Brifysgol mewn gwarged pe bai wedi'i gwblhau yn 2022/23 yn unol â'r bwriad gwreiddiol.</p> <p>Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod incwm wedi codi tua 40% dros gyfnod o dair blynedd a bod sefyllfa ariannol y Brifysgol yn gadarnhaol iawn. Nodwyd nad oedd Wrecsam yn wynebu'r un heriau ariannol â</p>	

	<p>rhai Prifysgolion eraill, fodd bynnag, roedd y rhagolygon ariannol ar gyfer y sector yn parhau i fod yn llwm. Yr her o recriwtio a chadw myfyrwyr israddedig amser llawn yn y DU fyddai'r maes blaenoriaeth o hyd.</p> <p>Nodwyd bod y Brifysgol yn archwilio opsiynau o ran rheoli trysorlys, a chydbwysedd priodol rhwng risg a gwobr i sicrhau'r elw gorau ar ei adneuoan arian dros y tymor byr, canolig a hir.</p> <p>Nododd y Bwrdd hefyd ehangder y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r sicrwydd cadarnhaol a gafwyd drwy archwiliadau mewnol. Adroddwyd bod yr archwilwyr mewnol wedi gwneud sylwadau ar yr ymateb cefnogol a pharod gan reolwyr y Brifysgol i archwiliadau, ac roedd yr holl archwiliadau a gynhaliwyd yn 2022/23 wedi arwain at sicrwydd sylweddol neu resymol.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Gorffennaf 2023 CYMERADWYO adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg 2022/23 NODI adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol 2022/23</p>	
BG2324/33	Adroddiad Blynyddol Bwrdd y Llywodraethwyr 2022/23	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Blynyddol Bwrdd y Llywodraethwyr 2022/23</p> <p>Adroddwyd: Derbyniodd y Bwrdd adroddiad blynyddol gan y Clerc a oedd yn crynhoi gweithgarwch y Bwrdd a'r gwaith a wnaed yn 2022/23</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R adroddiad blynyddol</p>	
BG2324/35	ASSuR 2023	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol (ASSuR)</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol (Cyllid) adroddiad ar y dystiolaeth sylfaenol er mwyn gallu cwblhau'r ASSuR. Dywedwyd mai bwriad gwybodaeth o fewn ASSuR oedd galluogi Llywodraethwyr i fodloni eu hunain bod y sefydliad yn gynaliadwy yn ariannol. Roedd felly'n rhan bwysig o'r naratif sy'n sail i sicrwydd y Llywodraethwyr yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol bod y sefydliad yn gweithredu fel busnes hyfyw.</p> <p>Diolchodd y Bwrdd i'r tîm Cyllid am adroddiad technegol, a nododd yr aelodau ei fod yn rhan bwysig o'r broses lywodraethu.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol (ASSuR) a'i gyflwyno i CCAUC</p>	
BG2324/36	Adroddiad Cyrhaeddiad a Chwblhau 2022/23	
	<i>Roedd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn mynychu ar gyfer yr eitem hon</i>	

	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Cyrhaeddiad a Chwblhau 2022/23</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Cyfarwyddwr SPSA adroddiad ar gyrhaeddiad (a oedd yn archwilio cyflawniad rhwng gwahanol grwpiau o fyfyrwyr o ran cyfran y myfyrwyr sy'n cyflawni canlyniad gradd da), a chwblhau (a oedd yn edrych ar wahaniaethau mewn cyflawniad rhwng gwahanol grwpiau o fyfyrwyr o ran cyfran y myfyrwyr sy'n cyflawni canlyniad cwblhau cadarnhaol).</p> <p>Tynnodd y Bwrdd sylw at y ffaith bod 'llwyddiant' yn oddrychol ac yn berthnasol i amgylchiadau personol pob myfyriwr unigol, ac o ganlyniad nid oedd bylchau cyrhaeddiad yn adrodd stori lawn. Awgrymodd yr aelodau y byddai mesur 'cynnydd dysgu' neu 'pellter a deithiwyd' gan bob myfyriwr yn fetrig arbennig o ddefnyddiol ar gyfer diffinio i Wrecsam a'i broffil o fyfyrwyr. Awgrymwyd y gallai'r Brifysgol archwilio'r defnydd o'r mesurau hyn wrth symud ymlaen, o bosibl gan ddefnyddio prosiectau ledled y DU lle trafodwyd mesur cynnydd dysgu gan UUK a'r Rhwydwaith Polisi Myfyrwyr mewn perthynas â'r TEF.</p> <p>Nododd yr aelodau fod y Brifysgol yn bwriadu adnewyddu ei Strategaeth Ymgysylltu a Chadw Dysgwyr yn 2024, ac awgrymodd y gallai fod yn ddefnyddiol defnyddio data parhad yn y gwaith hwnnw i helpu i hysbysu blaengynllunio.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	JD
BG2324/38	C1 Sefyllfa alldro Rhagolwg 2023/24	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad rheolaeth ariannol Chwarter 1 2023/24</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol (Cyllid) ragolygon ariannol grŵp y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 1 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24. O ran cofrestru myfyrwyr a'r lefelau disgwylidig o ffioedd dysgu a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn, nodwyd bod y diffyg yn y recriwtio arfaethedig ar gyfer israddedigion yn y DU bron wedi'i wrthbwysu gan gynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ôl-raddedig a myfyrwyr Prentisiaid Gradd. Roedd GIL yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn a oedd tua dwywaith yn fwy na'r sefyllfa gyllidebol wreiddiol (£656k), gyda'r is-gwmnïau eraill yn rhagweld sefyllfa gytbwys. Roedd gwerthiant Ffordd y Deon wedi cael ei gwblhau ym mis Hydref 2023 a byddai'r elw ar waredu nawr yn ymddangos yn rhagolwg 2023/24 (nid 2022/23 yn unol â'r gyllideb wreiddiol). Roedd hyn wedi arwain at ragolygon gwarged net o £3.486m. Fodd bynnag, roedd y gwarged gweithredu a ragwelwyd wedi gostwng rhywfaint ers y gyllideb wreiddiol o £1.104m i £0.236m, yn bennaf o ganlyniad i effaith cofrestru ym mis Medi. Er mai dyma oedd y rhagolwg ar gyfer Chwarter 1, adroddwyd bod posibilrwydd o hyd o adennill yn agosach at y targed gweithredol o warged o £1m yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Yn ystod y drafodaeth nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan gydnabod mai dyma oedd camau cynnar y rhagolygon, ac roedd y sefyllfa'n debygol o newid, roedd yr aelodau'n croesawu'r rhagolygon a oedd yn arwydd o reolaeth ariannol iach. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n debygol y byddai cynyddu'r cyflog byw gwirioneddol a ddisgwylir yn 2024 yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Brifysgol. Nodwyd y byddai hyn yn debygol o gael effaith ehangach ar raddfeydd cyflog a oedd yn cael ei fonitro gan y Cyfarwyddwyr Cyllid Gweithredol ac Adnoddau Dynol. • O ran recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, trafododd y Bwrdd sut mae'r corff llywodraethu yn cael sicrwydd ynghylch dyletswyddau noddi'r Brifysgol. Nodwyd bod archwiliad diweddar UKVI wedi bod yn gadarnhaol, a bod y Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro wedi derbyn data ac ystadegau fel noddwr a enwir ar gyfer y Brifysgol. Cytunwyd y dylid ychwanegu perfformiad mewn perthynas â gofynion UKVI fel DPA Corfforaethol ar gyfer 2023/24 a'i adrodd i'r Bwrdd yn flynyddol fel rhan o'r broses honno. • Roedd sefyllfa ariannol GIL wedi bod yn destun trafodaeth hir yn y Pwyllgorau Archwilio a Risg a Strategaeth a Chyllid. Barn y ddau Bwyllgor oedd bod y lefel bresennol o golled yn annerbyniol, er y cydnabuwyd nad oedd yr ateb yn syml ac roedd yr aelodau'n ymwybodol o'r manteision ehangach a ddaeth GIL i'r Brifysgol. Roedd cynllun cyflawni diwygiedig (sy'n lleihau maint y diffyg a ragwelir ac adferiad pellach yn y blynyddoedd dilynol) i fod i gael ei drafod gan Fwrdd GIL a'i rannu â'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn ystod yr wythnosau nesaf. <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	AM/JD
BG2324/39	RDAPs	
	<p>Derbyniwyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am broses adolygu RDAP yr ASA</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad ar gynnydd mewn perthynas â chais y Brifysgol am Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil (RDAP) a gyflwynwyd i'r Cyfrin Gyngor ar 1 Medi 2022. Yn dilyn y broses adolygu helaeth gan banel yr ASA, byddai adroddiad gydag argymhelliad yn cael ei drosglwyddo i Bwyllgor Ymgynghorol yr ASA ar Bwerau Dyfarnu Graddau i'w ystyried; yn dilyn cadarnhad gan Fwrdd llawn yr ASA ym mis Mawrth byddent yn trosglwyddo eu hargymhelliad i Lywodraeth Cymru, a fyddai wedyn yn mynd yn ôl i'r Cyfrin Gyngor. Disgwylid canlyniad tua mis Ebrill 2024.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
BG2324/40	Concordat Datblygu Ymchwil	

	<p>Derbyniwyd: Adolygiad 10 mlynedd o Ragoriaeth mewn Ymchwil Adnoddau Dynol</p> <p>Adroddwyd: Derbyniodd y Bwrdd adroddiad adolygu 10 mlynedd ar y Wobr Rhagoriaeth mewn Ymchwil Adnoddau Dynol, a gafodd y Brifysgol am y tro cyntaf yn 2013. Cafodd y wobr ei mapio yn erbyn y Concordat newydd i Gefnogi Datblygiad Gyrfaoedd Ymchwilwyr, y daeth y Brifysgol yn llofnodwyr ohono yn 2022. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Brifysgol a'i meysydd ffocws arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf a fyddai'n hysbysu'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu newydd ar gyfer 2023-2026.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R adroddiad</p>	
--	--	--

BG2324/41	Partneriaethau Academaidd: Fframwaith ar gyfer Cymeradwyo Partneriaeth	
------------------	---	--

	<p>Derbyniwyd: Set ddiwygiedig o weithdrefnau partneriaethau academiaidd Strwythur adrodd arfaethedig i'r Bwrdd ar gyfer yr eitem sefydlog ar bartneriaethau</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro gynigion ar gyfer cymeradwyo a monitro partneriaethau academiaidd. Roedd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd wedi ystyried y cynigion. Croesawodd y Bwrdd y cynigion hyn a nododd eu bod yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau gweithredu'r ASA a'r IRR. Nod y cynigion oedd sefydlu proses 'busnes fel arfer', gyda throshaen ychwanegol a oedd yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd a fyddai'n aros yn ei le nes i'r prosesau gael eu gwreiddio'n llawn.</p> <p>Yn ystod y drafodaeth, tynnodd yr aelodau sylw at nifer o bwyntiau i'w hystyried ymhellach, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysoli rhai dangosyddion, neu nodi dangosyddion a allai fod yn ddigon i atal diwydrwydd dyladwy (e.e. niwed sylweddol i enw da). • Creu siart llif a oedd yn amlinellu'n glir gamau cyfranogiad y Bwrdd. • Llunio naratif ysgrifenedig/nodyn eglurhaol a oedd yn amlinellu'n glir y newidiadau a wnaed mewn ymateb i faterion a godwyd yn y cynlluniau gweithredu. • Ystyried sut y gellid cynnwys asesu risg a monitro partneriaid sy'n recriwtio niferoedd isel o fyfyrwyr mewn prosesau i sbarduno sgysiau amserol am werth parhaus partneriaethau. <p>Nododd yr aelodau nad oedd gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phartneriaid academiaidd yn wyddor fanwl; byddai yna elfen o oddrychedd a thrafodaeth bob amser. Fodd bynnag, byddai set glir o brosesau a fframweithiau yn rhoi sicrwydd ar y meini prawf a ddefnyddir i lywio'r penderfyniadau hynny. Croesawyd cyflwyno templed adrodd y Partneriaethau ar gyfer y Bwrdd, yn ogystal â'r dull o fonitro partneriaid yn barhaus ar sail risg.</p> <p>Penderfynwyd: CYTUNO i ddirprwyo cymeradwyaeth derfynol i weithdrefnau'r bartneriaeth a'r templed adrodd i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd</p>	
BG2324/42	Partneriaethau Academaidd: Campws Manceinion	
	<p>Derbyniwyd: Diweddariad ar statws Campws Manceinion</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro ddiweddariad ar statws Campws Manceinion, a gymeradwywyd am y tro cyntaf gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021, gyda Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2023. Cynigiwyd darparu'r campws o dan drefniant partneriaeth gyda phartner masnachol - wedi'i gyfyngu i ddechrau i gyflwyno rhaglenni busnes (israddedig ac ôl-raddedig) i fyfyrwyr rhyngwladol. Roedd y Brifysgol wedi ceisio cymeradwyaeth gan CCAUC ar gyfer y datblygiad hwn, ond nid oedd ymateb wedi dod i law.</p>	

	<p>Nododd y Bwrdd, er bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith, nad oedd y Brifysgol yn ddarostyngedig i unrhyw rwymedigaethau cytundebol. Nodwyd bod pedair blynedd wedi mynd heibio ers i'r cynnig gael ei lunio am y tro cyntaf, a dwy flynedd ers cymeradwyaeth gychwynnol y Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd fod y cyd-destun wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw, a bod blaenoriaethau sefydliadol o bosibl wedi newid. Cytunwyd felly y dylid yn awr ystyried bod y gymeradwyaeth wedi dod i ben. Nodwyd bod y Swyddfa Myfyrwyr wedi nodi ei bwriad i ganolbwyntio ar sefydliadau yn Lloegr gan ymgymryd â phartneriaethau masnachol gyda'r nod o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i raglenni busnes, a oedd yn arwydd o bryderon rheoleiddio ar draws y sector.</p> <p>Cytunwyd y dylid cysylltu â CCAUC am ddiweddariad ynghylch safbwynt y rheoleiddiwr ar y cynigion. Byddai cynnig amlinellol wedyn yn cael ei ailystyried gan y Bwrdd os bydd angen.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R diweddariad</p>	AM
BG2324/43	Datganiadau Sicrhau Ansawdd Blynyddol CCAUC	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Trosolwg Safonau Blynyddol 2022/23</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro adroddiad ar ansawdd a safonau a gafodd ei fapio yn erbyn y chwe Datganiad Sicrhau Ansawdd a nodwyd gan CCAUC. Darparwyd yr adroddiad ac ystod eang o dystiolaeth ategol a ddarparwyd o dan bob datganiad, a ystyriwyd yn fanwl gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn ogystal â'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad, gan nodi dyfnder y dogfennau ategol a lefel uchel y craffu a wnaed gan y Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Rheoleiddio a'r Bwrdd Academaidd. Nodwyd nad oedd unrhyw bryderon wedi'u mynegi gan y rheoleiddiwr ynghylch ansawdd y ddarpariaeth, a daeth y Bwrdd i'r casgliad bod tystiolaeth briodol a chadarn i'w alluogi i gadarnhau'r datganiadau i CCAUC.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO cadarnhad o'r chwe datganiad sicrwydd i CCAUC ym mis Rhagfyr 2023 ac i Gadeirydd y Bwrdd lofnodi'r ddogfen sicrwydd.</p>	
BG2324/44	Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd	
	<p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Dogfen tracio yn dangos cynnydd y Cynllun Gweithredu (ii) Templed 'Crynodeb o'r Cynnydd' <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro adroddiad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd. Adroddwyd bod yr holl eitemau wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn, ac eithrio camau gweithredu yn ymwneud â Phartneriaethau Academaidd a oedd yn cael eu hystyried gan y Bwrdd ar agenda'r cyfarfod hwn (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/41). Cyflwynwyd templed 'crynodeb cynnydd' hefyd, a oedd yn cynnig strwythur ar gyfer adnodd i ddarparu adroddiadau cynnydd cynhwysfawr i Bwyllgorau perthnasol. Croesawodd yr aelodau yr offeryn hwn a drafodwyd yn y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd fel dull adrodd cynhwysfawr a chlir, a oedd yn cynnwys dolenni byw at</p>	

	dystiolaeth a dogfennau ategol.	
--	---------------------------------	--

	Penderfynwyd: NODI'R diweddariadau	
BG2324/45	Campws 2025	

Derbyniwyd:

- (i) Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Ystadau 2022/23
- (ii) Achos busnes y Rhwydwaith Ardal Leol
- (iii) Cynllun cyflwyno Campws 2025

Adroddwyd:

BG2324/45.1 Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Ystadau 2022/23

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol (Gweithrediadau) yr adroddiad blynyddol a oedd hefyd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, gan dynnu sylw at ehangder y gwaith a wnaed drwy gydol y flwyddyn a oedd yn dangos cynnydd mewn perthynas â chynlluniau datblygu'r campws ac ymrwymadau'r Brifysgol i sero net. Croesawodd y Bwrdd fformat a chynnwys rhagorol yr adroddiad a diolchodd i'r tîm Ystadau, gan nodi gwaith rhagorol y Pennaeth Ystadau a Rheoli Campws, a'r Rheolwr Prosiectau Cyfalaf. Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar sut roedd yr ail-frandio a'r goleuadau allanol newydd wedi rhoi hwb sylweddol i'r campws.

BG2324/45.2 Achos Busnes y Rhwydwaith Ardal Leol

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol (Gweithrediadau) a'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Cyllid) achos busnes dros brynu a gosod Rhwydwaith Ardal Leol y genhedlaeth nesaf. Roedd y cynnig wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a oedd yn cefnogi'r achos busnes ac yn argymhell ei gymeradwyo i'r Bwrdd. Nododd yr aelodau fod ansawdd y rhwydwaith yn fater parhaus a oedd yn arwain at adborth negyddol gan fyfyrwyr ac yn cael effaith andwyol ar y profiad ar y campws i bob ymwelydd. Roedd cwmni arbenigol allanol wedi ystyried bod y rhwydwaith presennol ar ddiwedd ei oes, ac felly roedd buddsoddi mewn seilwaith digidol yn flaenoriaeth uchel. Nododd yr aelodau hefyd y gallai methu â buddsoddi effeithio ar allu'r Brifysgol i ennill achrediad Cyber Essentials, a fyddai yn ei dro yn effeithio ar ymchwil a chyllid yn ogystal â phrofiad myfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Roedd y Brifysgol yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer yr achos busnes dros gaffael, prynu a gosod rhwydwaith newydd am gyfanswm cost cyfalaf o £600k.

BG2324/45.3 Cynllun cyflwyno Campws 2025

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol (Gweithrediadau) a'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Cyllid) ddiweddariad ar gynllun cyflwyno Campws 2025 a oedd hefyd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid. Nodwyd bod cyllid EEOC wedi'i sicrhau ac y byddai'r gwaith adeiladu'n dechrau ym mis Chwefror 2024, tra'r oedd cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Cam 2b HEIQ. Byddai'r Brifysgol yn parhau i fonitro argaeledd cyllid a grantiau i gefnogi datblygiadau lle bynnag y bo modd. Un o'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg oedd cynyddu nifer y llety i fyfyrwyr; roedd opsiynau'n cael eu hystyried a byddai cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd maes o law. Nododd yr aelodau nad oedd unrhyw gynlluniau cyllido ar waith o ran llety myfyrwyr a oedd yn golygu y byddai opsiynau'n debygol o gynnwys datblygwyr trydydd parti a darparwyr preifat, yn ogystal â benthycu. Roedd diddordeb ym mhroffil cynyddol y ddinas yn golygu bod buddsoddiad yn y sector preifat yn bosibilrwydd tebygol. Nodwyd bod y dull o ddod â phob cynllun gwaith unigol o fewn Campws 2025 i'w gymeradwyo'n llawn gan y Bwrdd yn rhoi lle i adolygu'r cynlluniau gwreiddiol yng ngoleuni blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n newid.

	<p>Penderfynwyd: NODI'R Adroddiad Ystadau Blynyddol 2022/23 CYMERADWYO'R achos busnes dros gaffael, prynu a gosod Rhwydwaith Ardal Leol newydd am gyfanswm cost cyfalaf o £600k NODI cynllun cyflwyno Campws 2025</p>	
BG2324/46	Arolwg Ymgysylltu â Staff 2022	
	<p>Derbyniwyd: Cyflwyniad ar ddadansoddi canlyniadau Arolwg Ymgysylltu â Staff 2022</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol (AD) ddadansoddiad o ganlyniadau Arolwg Ymgysylltu â Staff 2022, gan ganolbwyntio ar feysydd sy'n ymwneud â Diwylliant Sefydliadol (sy'n gysylltiedig â'r cynllun gweithredu sy'n deillio o adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd). Cynhaliwyd yr arolwg ddwywaith y flwyddyn ers 2016. Roedd ymatebion i 51 o gwestiynau wedi cael eu dadansoddi. Cymerwyd sgôr cyfartalog ar draws pob un o'r 51 cwestiwn o 2016 ymlaen yn 2018, 2020, ac ymatebion 2022 i ddangos bodlonrwydd staff yn y diwylliant sefydliadol, a'r cyfraniad at werthoedd sefydliadol, a sut maent yn cael eu hymgorffori.</p> <p>Roedd y taflwybr o ran sgôr cyfartalog ar draws y 51 cwestiwn wedi codi o 75% yn 2016 i 87% yn 2022. Nododd y Bwrdd y taflwybr hynod gadarnhaol hwn a oedd yn glod i bawb a oedd yn gysylltiedig, yn enwedig yng ngoleuni materion cymdeithasol a sector-benodol ehangach gan gynnwys cynnydd mewn costau byw ac anghydfodau staff. Diolchodd yr aelodau i'r arweinwyr am eu gwaith yn meithrin diwylliant cadarnhaol yn y Brifysgol.</p> <p>Nododd y Bwrdd fod y Brifysgol ar fin dechrau cyfnod pontio, gan recriwtio Dirprwy Is-Ganghellor, ac Is-Ganghellor newydd yn 2024; roedd y newid hwn ar lefel uwch yn debygol o effeithio ar ddiwylliant sefydliadol. Awgrymodd yr aelodau y byddai hyn yn gofyn am gyfathrebu cryf a chyson i ddarparu parhad a sicrwydd i staff.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
BG2324/47	Adroddiad y Cadeirydd	
	<p>Derbyniwyd: Diweddariad llafar gan y Cadeirydd</p> <p>Adroddwyd: Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd cynnydd yn cael ei wneud o ran recriwtio i swydd barhaol y Dirprwy Is-ganghellor, yn ogystal â swydd yr Is-ganghellor yn dilyn cyhoeddiad yr Athro Hinfelaar ei bod yn bwriadu ymddeol yn 2024. Roedd y Brifysgol yn gweithio gyda Perrett Laver a oedd yn arwain y broses o chwilio am ymgeiswyr gyda chymorth y Cyfarwyddwr Gweithredol (Adnoddau Dynol). Roedd Perrett Laver yn cynnal sgysrsiau rhanddeiliaid â llywodraethwyr er mwyn hysbysu'r broses, ac roedd Paneli Dethol wedi cael eu sefydlu ar gyfer y ddwy swydd a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl. Disgwylid penodiadau i'r ddwy swydd erbyn Gwanwyn 2024. Yn ddiweddar, roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod o Bwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion. Roedd ffocws y drafodaeth ar ddysgu gydol oes 	

	<p>a chyhoeddi Hawl Dysgu Gydol Oes (LLE) newydd a fyddai'n rhoi hawl i fyfyrwyr yn Lloegr gael benthyciad myfyriwr hyd at 60 oed. Disgwylid y byddai'r LLE yn cael ei lansio yn 2025; roedd y CUC yn gobeithio y byddai gwledydd datganoledig hefyd yn mabwysiadu hyn maes o law. Fodd bynnag, nodwyd y byddai Cymru yn parhau i fonitro datblygiadau cyn ei gyflwyno yn 2025, cyn gwneud unrhyw gyhoeddiadau. Hefyd ar agenda CUC roedd trafodaethau ynghylch rôl Prifysgolion a Chadeiryddion wrth weithio'n rhagweithiol gyda'r cyfryngau i gryfhau'r achos o blaid manteision cymdeithasol ac economaidd AU mewn ymateb i naratifau negyddol, a chynyddu'r ffocws ar brentisiaethau gradd a oedd yn faes penodol i'w ddatblygu yng Nghymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tynnodd y Cadeirydd sylw at y cyhoeddiad diweddar bod Elen-Mai Nefydd, Pennaeth Datblygiad Academaidd y Gymraeg y Brifysgol, wedi'i phenodi'n Ddirprwy Gadeirydd (Diwylliant) ar gyfer Eisteddfod 2025 a fyddai'n cael ei chynnal yn Wrecsam. Bu i'r Bwrdd longyfarch Elen-Mai a nododd y manteision y byddai cynnal yr Eisteddfod yn eu cynnig i'r ddinas. • Tynnodd y Cadeirydd sylw at dderbyn Adroddiad Blynyddol y Genhadaeth Ddinesig, a groesawyd gan y Bwrdd. Nodwyd bod yr adroddiad yn adlewyrchu llawer iawn o waith pwysig a oedd yn ganolog i genhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol. Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Ymgysylltu â Pholisiau Cyhoeddus a chydweithwyr am eu gwaith yn y maes hwn. <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
BG2324/48	Adroddiad y Bwrdd Academaidd	
	<p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd (ii) Datganiad Gonestrwydd Ymchwil 2022/23 <p>Adroddwyd: Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023. Nodwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo cynnig ar gyfer adolygiad effeithiolrwydd o'r Bwrdd Academaidd, i'w arwain gan y Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro • Cytunwyd i argymhell sicrwydd i Fwrdd y Llywodraethwyr y gellid cadarnhau Datganiadau Ffioedd a Mynediad perthnasol • Cymeradwyo'r bwriad o sefydlu Grŵp Ehangu Mynediad newydd, a'r Pwyllgor Recriwtio a Chadw • Cymeradwyo adroddiad trosolwg Ansawdd a Safonau Blynyddol 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, i hysbysu'r gwaith o gadarnhau datganiadau sicrwydd ansawdd CCAUC • Cymeradwyo argymhellion ar gyfer gweithredu'r Rheoliadau Academaidd newydd yn 2023/24 • Cymeradwyo'r Matrics Adrodd ar gyfer goruchwyllo adrodd ar setiau data allweddol ar draws y sefydliad, a fyddai'n cael ei chyhoeddi yn llawlyfr y Bwrdd Academaidd • Cymeradwyo mân newidiadau i'r Polisi ar Gyfrifoldebau Adrodd a Chadw Cofnodion i UKVI • Nodi'r Strategaeth ar gyfer Cynllun Gweithredu Cefnogi Dysgu a Chyrhaeddiad Myfyrwyr (SSSLA) ar gyfer 2023/24 • Nodi'r adroddiad Bwlch Cwblhau 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo Fframwaith Sgiliau newydd y Brifysgol ar gyfer ei weithredu'n raddol gyda dilysu/ailddilysu rhaglenni • Cymeradwyo'r broses o ailddilysu'r gyfres o raglenni Cyfrifiadura israddedig ac ôl-raddedig <p>Cafodd y Bwrdd Ddatganiad Gonestrwydd Ymchwil Blynyddol 2022/23 hefyd, a argymhellodd y Bwrdd Academaidd y dylid ei gymeradwyo a'i gyhoeddi drwy wefan y Brifysgol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad CYMERADWYO Datganiad Blynyddol Gonestrwydd Ymchwil 2022/23</p>	
BG2324/49	Adroddiad Monitro HEIRF	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar y HEIRF</p> <p>Adroddwyd: Cafodd y diweddariad gan y Cyfarwyddwr Rhaglenni Myfyrwyr a Gweinyddu Myfyrwyr yn unol â thelerau ac amodau'r cyllid a gafwyd drwy'r Gronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch (HEIRF) yn 2020/21. Ar ôl gofyn am adroddiadau monitro ym mis Mawrth, mis Gorffennaf a mis Hydref 2021, symudodd CCAUC i adroddiadau blynyddol ar gyfer 2022 a 2023. Roedd gan y Brifysgol dri phrosiect mewn meysydd blaenoriaeth sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cryfhau seilwaith technegol i gefnogi dysgu cyfunol • Cadw capasiti staff • Cefnogi sgiliau a chyflogadwyedd <p>Roedd yr holl brosiectau wedi'u cwblhau a'r adroddiadau terfynol wedi'u cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arwain a'u cyflwyno i CCAUC yn ystod haf 2023.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
BG2324/50	Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gyfarfod AQSC a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2023</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor adroddiad y cyfarfod. Roedd cofnodion y cyfarfod wedi cael eu dosbarthu ar wahân. Nodwyd bod y ddwy eitem ganlynol ar y brif agenda i'r Bwrdd eu hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datganiadau Sicrwydd Ansawdd CCAUC, yr argymhellodd y Pwyllgor Safonau Ansawdd a Rheoleiddio y dylai'r Bwrdd eu cymeradwyo ar ôl craffu ar dystiolaeth ategol yn y cyfarfod (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/43) • Diwygiadau arfaethedig i broses rheoli risg a chymeradwyo'r Brifysgol ar gyfer partneriaethau academaidd. Argymhellwyd y dylai'r Bwrdd ddirprwyo cymeradwyaeth derfynol i'r Pwyllgor Safonau Ansawdd a Rheoleiddio yn amodol ar ddiwygiadau (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/41) <p>Nodwyd hefyd y byddai Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cael ei ddiwygio i</p>	

	gynnwys cyfeiriad at bartneriaethau academiaidd.	
--	--	--

	Penderfynwyd: NODI'R adroddiad	
BG2324/51	Adroddiad y Pwyllgor Pobl a Diwylliant	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor adroddiad ar y cyfarfod. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo Datganiad Atebolrwydd Blynyddol y Ddyletswydd Atal ar gyfer 2022/23, i'w lofnodi gan Gadeirydd y Bwrdd a'i gyflwyno i CCAUC fel rhan o'r datganiad sicrwydd blynyddol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi nodi amrywiaeth o adroddiadau a diweddariadau ychwanegol; roedd cofnodion llawn y cyfarfod wedi cael eu dosbarthu i'r Bwrdd ar wahân.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
BG2324/52	Adroddiad y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid	

	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor adroddiad ar y cyfarfod. Roedd y Pwyllgor wedi trafod yr eitemau canlynol yr oedd angen eu hystyried gan y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prynu a gosod Rhwydwaith Ardal Leol y genhedlaeth nesaf, a oedd ar yr agenda ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd i'r achos busnes (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/45.2) • Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022/23 a oedd ar yr agenda, gydag argymhelliad gan y Pwyllgor bod y Bwrdd yn ei gymeradwyo (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/32) • Ar gyfer Glyndwr Innovations Ltd, roedd y Brifysgol yn ceisio cymeradwyaeth i ddileu £1.5m a oedd wedi cael ei amharu yn 2021/22, yn ogystal â £622k ychwanegol. Byddai hyn yn gadael balans o £0.525m y byddai'r Brifysgol yn ceisio ei adfer fel rhan o'r cynllun cyflawni sy'n cael ei drafod gyda Bwrdd GIL. Roedd y Pwyllgor wedi trafod yn faith ac wedi argymhell cymeradwyo dileu cyfanswm o £2.15m (£1.528m a £0.622m) mewn perthynas â GIL • Yr Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol (ASSuR) a oedd ar yr agenda, gydag argymhelliad gan y Pwyllgor bod y Bwrdd yn ei gymeradwyo (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/35) <p>Nododd yr aelodau fod y cofnodion llawn wedi cael eu dosbarthu ar wahân.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad CYMERADWYO dileu cyfanswm o £2.15m (£1.528m a £0.622m) sy'n gysylltiedig â GIL</p>	
BG2324/53	Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg	
	<p>Derbyniwyd: (i) Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2023.</p>	

(ii) Sicrwydd Cynllun Ffioedd a Mynediad

Adroddwyd:

Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor adroddiad ar y cyfarfod. Roedd y cofnodion wedi cael eu dosbarthu ar wahân. Roedd y Pwyllgor wedi trafod yr eitemau canlynol yr oedd angen eu hystyried gan y Bwrdd:

- Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022/23 a oedd ar yr agenda, gydag argymhelliad gan y Pwyllgor bod y Bwrdd yn ei gymeradwyo (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/32)
- Adolygu perfformiad archwilwyr mewnol ac allanol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo ailbenodi RSM (archwilwyr mewnol) a KPMG (archwilwyr allanol) am flwyddyn arall. Nododd y Bwrdd fod KPMG, ar ôl y cyfarfod, wedi dweud wrth y Brifysgol na fyddent yn parhau fel archwilydd allanol. Roedd y gweithdrefnau rhagarweiniol wedi cael eu rhoi ar waith cyn proses gaffael ar gyfer archwilydd newydd, a fyddai'n gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ddechrau 2024.
- Adroddiad a thystiolaeth ategol i roi sicrwydd ynghylch gofynion sy'n ymwneud â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, i'w darparu i CCAUC. Cafodd y dogfennau hyn eu derbyn gan y Bwrdd, ac yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, argymhellwyd y dylai'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Penderfynwyd:

NODI'R adroddiad

CYMERADWYO ailbenodi RSM fel archwilwyr mewnol

NODI'R bwriad i gaffael archwilydd allanol newydd

CYMERADWYO cadarnhau datganiadau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad fel rhan o ddatganiad sicrwydd blynyddol y Brifysgol i CCAUC